# Capel Seion

Drefach, Llanelli, Sir Gaerfyrddin. SA14 7BW

## Polisi Gwneud Cwyn

- *Diweddarwyd ddiwethaf: 15fed Rhagfyr 2020.*
- *Darllener Capel Seion a Chanolfan Hebron lle gwelir Capel Seion yn unig.*

GWNEUD CWYN

**Os oes angen i chi wneud cwyn**

Gobeithio na fydd angen i chi anfon cwyn atom, oherwydd rydyn ni'n ymdrechu'n galed i gyrraedd y safonau uchel rydyn ni'n eu gosod i ni'n hunain. Fodd bynnag, weithiau bydd pethau'n mynd o chwith, ac efallai yr hoffech chi gwyno. Yn y lle cyntaf, rydym yn annog unrhyw un sydd â chwyn i geisio datrys y mater gyda'r unigolyn y maent wedi bod yn delio ag ef. Os na allwch wneud hynny neu os yw'r gŵyn o natur fwy difrifol yna mae gennym broses gwynion ffurfiol a nodir isod. Ni waeth a gyflwynir cwyn yn ffurfiol neu'n anffurfiol byddwn yn gwneud ein gorau i ddatrys y mater yn amserol (lle mae hynny'n bosibl) ac i gyfathrebu'n dda â chi.

Gallwch wneud cwyn ffurfiol trwy anfon e-bost at y gwynelfyn@gmail.com neu drwy lythyr at: Ann Thomas ( Ysgrifennydd ) Y Berllan, Drefach, Llanelli. Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt a rhoi gwybod i ni sut a phryd yr hoffech gysylltu â chi gydag ymateb.

Os anfonwch gŵyn atom, byddwn yn cydnabod y gŵyn, fel eich bod yn gwybod ein bod wedi ei derbyn. Byddwn yn edrych i mewn i amgylchiadau eich cwyn ac os yw'n briodol gwneud hynny byddwn yn rhoi gwybod ichi beth yr ydym wedi'i ddarganfod a pha gamau yr ydym wedi'u cymryd i unioni'r mater. Cofiwch, am resymau sensitifrwydd a / neu gyfreithiol a chydymffurfiaeth, efallai na fyddwn bob amser yn gallu dweud wrthych beth yw ein canfyddiadau na pha gamau yr ydym wedi'u cymryd mewn ymateb i gŵyn. Fodd bynnag, byddwn bob amser yn ymchwilio i gwynion a wneir ac wedi ymrwymo i gymryd y camau priodol o dan yr amgylchiadau.

**Beth os nad ydych chi'n hapus â'n hymateb i'ch cwyn?**

Rydym yn cymryd cwynion o ddifrif, ac rydym yn ymateb iddynt mor drylwyr â phosibl. Os ydych yn dal i bryder nad ymdriniwyd â'ch cwyn yn foddhaol, gallwch ofyn iddi gael ei throsglwyddo i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glan yr Afon, Bro Abertawe, Abertawe, SA7 0AJ: undeb@an 01792-795888

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn elusen sydd wedi'i chofrestru yn y DU. Gallwch hefyd drosglwyddo'ch cwyn i'r Comisiwn Elusennau. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y math o gwynion y gall y Rheoleiddiwr Elusennau eu cynnwys eu hunain ar eu gwefan yn: https://www.gov.uk/complain-about-charity.

15.12.20